Gweiddi

# Tasg 4

# Tebyg ... gwahanol ...

Gwaith pâr

1. Partner 1: Rhaid i chi ddarllen y darn **Beth ar y ddaear?**, sef y darn am gartrefi o dan y môr). Gwnewch grid fel yr un isod a llenwch golofn 2.
   Partner 2: Rhaid i chi ddarllen y darn **Tref wahanol**, sef y darn am Coober Pedy (sydd i'w weld yr yr adran Ble ar y ddaear? Tasg 2.) Gwnewch grid fel yr un isod a llenwch golofn 3.

| Y cartrefi | Beth ar y ddaear? | Tref wahanol |
|---|---|---|
| Pa wlad | | |
| Ble yn union | | |
| Disgrifiad o'r cartrefi | | |
| Unrhyw wybodaeth arall | | |

2. Partner 1: Gofynnwch gwestiynau i Bartner 2 am y darn **Tref wahanol**. Llenwch y golofn wag yn y grid.
   Partner 2: Gofynnwch gwestiynau i Bartner 1 am y darn **Beth ar y ddaear?** Llenwch y golofn wag yn y grid.

3. Trafodwch y ddau ddarn er mwyn gweld:
   - sut mae'r cartrefi'n debyg
   - sut mae'r cartrefi'n wahanol.

Ysgrifennwch eich syniadau mewn grid fel yr un yma.

| Yn debyg: |
|---|
| |
| Yn wahanol: |
| |

4. Ysgrifennwch ddarn yn cymharu'r cartrefi.

Ceisiwch ddefnyddio rhai o'r ymadroddion hyn:

hefyd | yn ogystal (â) | felly hefyd

yr un peth (â) | yr un fath (â)

ond | fodd bynnag | yn wahanol i

i'r gwrthwyneb | ar y llaw arall